

Tâl y Comisiynydd Safonau Dros Dro

Medi 2020

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnig i newid tâl y Comisiynydd Safonau Dros Dro, er mwyn ei gysoni â'r hyn yr oedd y Comisiynydd Safonau blaenorol yn ei gael.

Cefndir

1. Penodwyd Douglas Bain, y Comisiynydd Safonau Dros Dro ("y Comisiynydd Dros Dro"), gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Tachwedd 2019. Nododd y cynnig i'w benodi y dylai'r Comisiynydd Dros Dro gael ei dalu £392 y dydd (pro-rata am ran o ddiwrnod) ac nid oedd yn cynnwys tâl cadw. Nid yw telerau ac amodau Mr Bain yn cyfeirio at gynnydd na chynyddran flynyddol. Dyma'r un telerau â'r rhai ar gyfer ei benodiad dros dro blaenorol ym mis Tachwedd 2018.
2. Roedd Syr Roderick Evans, y Comisiynydd Safonau blaenorol, (yn y swydd rhwng 1 Rhagfyr 2016 ac 11 Tachwedd 2019) yn cael tâl cadw blynyddol o £5,522 a £412 y dydd yn 2019-2020. Roedd ei dâl yn gysylltiedig â Grŵp 5 o raddfeydd cyflog y Cyflogau Barnwrol.

Tâl y Comisiynydd Dros Dro

3. Ers penodi'r Comisiynydd Dros Dro ym mis Tachwedd 2019, mae hyd, rôl a chyfrifoldebau'r penodiad dros dro wedi dod yn gliriach gan fod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi cytuno ar ei raglen waith ac yn dymuno adolygu rôl y Comisiynydd Safonau cyn penodi Comisiynydd parhaol. Rhagwelir y bydd y Comisiynydd Dros Dro yn y swydd tan o leiaf 2021.
4. Felly, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol, bod tâl y Comisiynydd Dros Dro yn adlewyrchu'r rôl a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rheoli swyddfa'r



Comisiynydd Safonau, yn hytrach na phenodiad tymor byr i ystyried mater penodol. Bu oedi cyn cyflwyno'r cynnig hwn oherwydd pandemig parhaus COVID-19.

5. Cynigir y dylai tâl y Comisiynydd Dros Dro gael ei ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â chyflog deiliad blaenorol y swydd o 7 Hydref 2020, sef:

- tâl cadw blynyddol o £5,632.44 (i'w dalu'n fisol), a chyfradd ddyddiol o £420.24 (pro-rata am ran o ddiwrnod) am weithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl a chyfrifoldebau'r swydd, ynghyd â threuliau rhesymol.¹

6. Cynigir y bydd cynnydd canrannol blynyddol i dâl y Comisiynydd Dros Dro yn gysylltiedig â chynnydd canrannol i raddfeydd cyflog y Cyflogau Barnwrol (Grŵp 5) ac y bydd unrhyw adolygiadau i'r raddfa gyflog yn gymwys. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r penderfyniad ynghylch y cynnydd blynyddol i Gyflogau Barnwrol wedi'i gyhoeddi yn ystod tymor yr haf/hydref ac wedi'i ôl-ddyddio yn unol â hynny i 1 Ebrill y flwyddyn honno.

7. Cynigir bod y Comisiynydd Dros Dro hefyd yn cael un taliad o £6,742.99; ynghyd â swm o £28.24 y dydd (pro rata am ran o ddiwrnod) am yr oriau a weithir o 1 Medi hyd 6 Hydref 2020. Mae hyn yn cyfateb i'r enillion ychwanegol y byddai wedi'u cael pe bai wedi'i roi ar yr un raddfa gyflog â'r Comisiynydd blaenorol ar ôl iddo gael ei benodi ym mis Tachwedd 2019. Bwriad y taliad hwn yw cydnabod bod y Comisiynydd Dros Dro wedi bod yn ymgymryd â rôl a chyfrifoldeb sy'n gyfwerth â'r Comisiynydd Safonau.

8. O dan Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, mae angen i'r Senedd gymeradwyo unrhyw benderfyniad i amrywio telerau penodiad y Comisiynydd Safonau Dros Dro.

9. Mae'r cynnig llawn wedi'i amlinellu yn Atodiad A.

10. Cyn recriwtio rhywun i'r rôl yn barhaol, mae'r Pwyllgor yn bwriadu gwneud argymhellion i'r awdurdod dirprwyedig ynglŷn â'r telerau (gan gynnwys mathau o dâl) ar gyfer penodi'r Comisiynydd Safonau.

¹ Roedd y swm a dalwyd i'r cyn-Gomisiynydd yn destun cynnydd yn Ebrill 2020

Recommendation 1. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymhell bod y Senedd yn derbyn y cynnig a nodir yn Atodiad 1 i amrywio tâl y Comisiynydd Safonau Dros Dro.

Atodiad A:

Cynnig i newid Tâl y Comisiynydd Dros Dro:

O 7 Hydref 2020, mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymhell bod Senedd Cymru yn cytuno i addasu'r telerau ar gyfer penodi'r Comisiynydd Dros Dro, yn unol ag adran 4(4)(d) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, fel a ganlyn-

- Mae £5,632.44 y flwyddyn i'w dalu i'r Comisiynydd Dros Dro (i'w dalu bob mis ar sail pro rata).
- Mae cyfradd ddyddiol y Comisiynydd Dros Dro i'w chynyddu i £420.24 (neu pro rata am ran o ddiwrnod).
- Bydd unrhyw gynnydd i Grŵp 5 o raddfeydd cyflog y Cyflogau Barnwrol yn gymwys i gyfradd ddyddiol y Comisiynydd Dros Dro a'i dâl cadw.
- Bydd y Comisiynydd Dros Dro yn cael un taliad o £6,742.99; ynghyd â swm o £28.24 y dydd (pro rata am ran o ddiwrnod) am yr oriau a weithir o 1 Medi hyd 6 Hydref 2020.
- Bydd treuliau rhesymol yn parhau i gael eu talu i'r Comisiynydd Dros Dro.

Nid yw hyn yn effeithio ar holl delerau eraill penodiad y Comisiynydd Dros Dro

